COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD

GWYBODAETH I YMGEISWYR

PARTNERIAETH COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD COMMON HOUSING REGISTER PARTNERSHIP

Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd sydd yn rheoli'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Tai Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin a Cartrefi Cymunedol Gwynedd. *Gwynedd Council Housing Options manage the Common Housing Register on behalf of North Wales Housing, Grŵp Cynefin and Cartrefi Cymunedol Gwynedd.*

Beth ydi Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd?

Defnyddir y Gofrestr Tai Gyffredin i ddyrannu eiddo i ymgeiswyr sydd wedi cofrestru cais. Bydd eiddo yn cael eu dyrannu yn unol â Pholisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd sydd yn sustem wedi ei seilio ar bwyntiau ac sy'n adlewyrchu'r angen am gartref. Wrth ymgeisio:

- Mae yna un pwynt mynediad i eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd: Opsiynau Tai Gwynedd. Cysylltwch â ni ar 01286 685100 neu trwy e-bost: opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru
- Dim ond un ffurflen gais sydd i'w chwblhau er y gallwch gael eich ystyried am eiddo ym mherchnogaeth 3 landlord cyhoeddus gwahanol
- Dim ond un cynllun pwyntiau sydd yn bodoli i adlewyrchu eich angen am eiddo cymdeithasol
- Mae yna un cynllun gosod; y broses a ddefnyddir i ddyrannu eiddo cymdeithasol. Os ydych eisiau copi o'r ddogfen bolisi llawn, cysylltwch â'r Tîm Opsiynau Tai
- Gallwch gael fynediad at gyngor ar faterion tai sydd yn cynnwys ystod o opsiynau a all fod ar gael ac yn addas ar eich cyfer
- Bydd Opsiynau Tai Gwynedd yn delio gydag unrhyw ymholiad am eich cais am eiddo

Mae Opsiynau Tai Gwynedd yn rheoli'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran:

Tai Gogledd Cymru | Grŵp Cynefin | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | Cyngor Gwynedd

1. Pwy all ymgeisio am eiddo cymdeithasol?

- Preswylwyr y DU sydd dros 16 oed
- Dinasyddion Prydeinig
- Dinasyddion Ardal Economaidd Ewrop
- Rhai pobl sydd yn ddinasyddion y Gymanwlad, ceiswyr lloches a phobl o dramor sydd gyda hawliau penodol i aros yn y DU

2. Pwy all ddim ymgeisio?

- Pobl o dramor (yn amodol ar 1. uchod)
- Pobl sydd yn destun rheolau mewnfudo
- Pobl, neu aelodau teulu pobl, sydd i'w trin fel bod yn anghymwys am ddyraniad oherwydd eu hymddygiad annerbyniol yn y gorffennol

3. Gwneud cais am eiddo cymdeithasol

Beth sydd angen i chi ei wneud

Cwblhau ac arwyddo'r ffurflen gais

⇩

Darparu copïau o'r wybodaeth angenrheidiol, er enghraifft cadarnhad o'ch cyfeiriad, hunaniaeth ayyb

⇩

Darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais, er enghraifft llythyr meddygol, statws digartrefedd, manylion lles

⇩

Gyrru'r pecyn ymgeisio cyflawn i Opsiynau Tai Gwynedd

Beth fydd Opsiynau Tai yn ei wneud

Gwirio os ydych yn gymwys i ymgeisio
⇩
Prosesu eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn eich cais
(os ydych wedi cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol)
⇩
Os nad ydych wedi darparu gwybodaeth ddigonol, fe wnawn ofyn i chi amdano
⇩
Byddwch yn derbyn pwyntiau yn unol â'r cynllun pwyntiau
⇩
Byddwn yn gyrru llythyr i chi yn cydnabod eich cais a chadarnhau'r manylion
⇩
Bydd eich cais yn cael ei adolygu bob 6 mis. Bydd angen i chi ymateb i'r broses adolygu neu mi fydd eich cais yn cael ei ddiddymu

4. Blaenoriaethu ceisiadau

Mae pob cais am eiddo yn cael ei asesu a bydd pwyntiau yn cael eu dyfarnu ar sail yr angen am eiddo. Mae'r Polisi Gosod Tai Gyffredin yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd mewn categori 'blaenoriaeth resymol'. Y categorïau blaenoriaeth resymol ydi:

- pobl sydd yn ddigartref
- pobl sydd arnynt ddyletswydd ddigartrefedd gan awdurdod lleol
- pobl sydd yn byw mewn amgylchiadau tai afiachus, gorlawn neu anfoddhaol
- pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les
- pobl sydd angen symud i ardal benodol yng Ngwynedd lle byddai methiant i wneud hynny yn achosi caledi iddynt hwy neu i eraill

Mae Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd hefyd wedi penderfynu y dylai blaenoriaeth gael ei roi i adlewyrchu'r canlynol:

- cysylltiad lleol person gyda Gwynedd a'r gymuned yr hoffai fyw ynddo
- ffactorau rheoli tai (sydd yn cynnwys tan-feddiannu llety, ail-gartrefu oherwydd gwaith sylweddol, galluogi tenant i symud i eiddo fforddiadwy lle mae yna risg i'r denantiaeth fethu) – mae hyn yn berthnasol i denantiaid cyfredol Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru yn unig

Bydd cynigion eiddo yn cael eu gwneud i ymgeiswyr sydd gyda'r cyfanswm pwyntiau uchaf ar gyfer y math hwnnw o eiddo yn yr ardal a ddewiswyd. Noder fod hyn yn amodol ar gwrdd â chriteria cyfradd llenwi (cyfansoddiad a maint teulu) sydd yn cael ei osod ar gyfer pob eiddo gan y landlord.

5. Addasu blaenoriaeth

Mewn rhai amgylchiadau gall blaenoriaeth ymgeisydd gael ei addasu, i bob pwrpas yn golygu y bydd y cais yn derbyn llai o flaenoriaeth. Gall blaenoriaeth gael ei addasu fel a ganlyn:

- pan mae gan denant cyfredol neu flaenorol ddyled sydd yn perthyn i denantiaeth
- lle mae yna elfen o ymddygiad annerbyniol wedi bod gan y tenant, aelod o'r teulu neu unrhyw un yn ymweld â hwy
- pan mae gwybodaeth gamarweiniol wedi ei gynnwys fel rhan o gais am eiddo
- gwaethygu amgylchiadau tai yn fwriadol er mwyn ennill mwy o flaenoriaeth
- gwrthod cynnig rhesymol llety
- pan mae gan yr ymgeisydd yr adnoddau ariannol i gwrdd â'u costau tai

6. Sut y bydd pwyntiau yn cael eu dyrannu

Dim ond un set o bwyntiau all gael eu dyrannu ar gyfer pob un o'r categorïau canlynol:

Sicrwydd daliadaeth	Pwyntiau
Yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn fwriadol a heb fod mewn blaenoriaeth angen (yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996)	10
Tenantiaeth byrddaliad sicr lle bo rhybudd yn gofyn am feddiant wedi ei roi	
Llety clwm lle mae rhybudd yn ceisio meddiant wedi ei roi	
Daliadaeth ansicr, er enghraifft lletywr	
Yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn anfwriadol ond heb fod mewn blaenoriaeth angen (yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996)	
Pobl sydd arnynt ddyletswydd o dan adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref)	
Pobl sydd yn ddigartref (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (adran 55), gan gynnwys pobl yr oedd arnynt ddyletswydd o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ond bod y ddyletswydd honno wedi dod i ben ac nad oes dyletswydd o dan adran 75 yn bodoli, neu bobl yr oedd arnynt ddyletswydd o dan adran 75 ond bod y ddyletswydd honno wedi dod i ben a'i bod yn ddigartref o hyd	
Aelod o'r Lluoedd Arfog a fydd yn ddigartref wedi ei ryddhau	20
Yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn fwriadol ac mewn blaenoriaeth angen (yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996)	
Pobl sydd arnynt ddyletswydd o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref)	
Yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac mewn blaenoriaeth angen (yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996)	30
Yn byw mewn llety dros dro â chymorth a/ neu adael gofal ond wedi ei asesu fel bod yn barod i symud ymlaen i lety annibynnol gyda phecyn cymorth yn ei le	
Pobl sydd arnynt ddyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben	

Amgylchiadau tai	Pwyntiau
Isel - Peryglon iechyd a diogelwch tai yn bresennol yn yr eiddo	10
Canolig - Peryglon iechyd a diogelwch tai yn bresennol yn yr eiddo	20
Uchel - Peryglon iechyd a diogelwch tai yn bresennol yn yr eiddo	30

Meddygol a lles	Pwyntiau
Byddai symud i lety arall o fudd i'r ymgeisydd	10
Byddai symud i lety arall o fudd sylweddol i'r ymgeisydd	20
Byddai symud i lety arall o fudd sylweddol iawn i'r ymgeisydd	30

Ffactorau cymdeithasol	Pwyntiau
Byddai symud i lety arall o fudd i'r ymgeisydd	10
Byddai symud i lety arall o fudd sylweddol i'r ymgeisydd	20
Byddai symud i lety arall o fudd sylweddol iawn i'r ymgeisydd	30

Ffactorau rheoli tai (Tenantiaid cyfredol CCG, Grŵp Cynefin a TGC yn unig)	Pwyntiau
Mae'r tenant yn tan-breswylio eu cartref presennol o un ystafell wely	10
Mae'r tenant yn tan-breswylio eu cartref presennol o ddwy ystafell wely	20
Mae'r tenant yn tan-breswylio eu cartref presennol o dair ystafell wely neu fwy	30
Mae angen ailgartrefu'r tenant er mwyn caniatáu gwneud gwaith mawr ar ei gartref presennol	
Symud eithriadol er mwyn rheoli	
Galluogi tenant i symud i eiddo fforddiadwy lle mae risg i'r denantiaeth fethu	

Cysylltiad lleol	Pwyntiau
Bydd ymgeiswyr sydd â chysylltiad lleol efo Gwynedd yn derbyn pwyntiau'n dibynnu ar hyd eu cysylltiad. Am bob blwyddyn lawn o gysylltiad byddant yn derbyn 3 phwynt hyd at uchafswm o 15 pwynt ar ôl 5 mlynedd	3 y flwyddyn (hyd at 15)

Preswyliad cymuned	Pwyntiau
Ymgeiswyr sydd yn neu wedi preswylio yn y gorffennol yn ardal cyngor cymuned sydd wedi ei gynnwys ar y cais. Am bob blwyddyn lawn o breswyliad byddant yn derbyn 2 pwynt hyd at uchafswm o 10 pwynt ar ôl 5 mlynedd	2 y flwyddyn (hyd at 10)

7. Addasu blaenoriaeth

Gall pwyntiau gael eu haddasu am y rhesymau canlynol:

Addasu blaenoriaeth	Pwyntiau
Dyled sydd yn perthyn i denantiaeth (yn ddibynnol ar lefel y ddyled)	Tynnu 10, 20 neu 30
Hanes o ymddygiad annerbyniol fyddai'n effeithio addasrwydd i fod yn denant	Tynnu 10, 20 neu 30
Darparu gwybodaeth gamarweiniol neu fel rhan o gais am eiddo	Tynnu 30
Gwaethygu amgylchiadau tai yn fwriadol er cymryd mantais o'r cynllun gosod	Tynnu 30
Gwrthod cynnig rhesymol llety	Tynnu 10
Yr ymgeisydd gyda'r adnoddau ariannol i gwrdd â'u costau tai ei hun	Dim blaenoriaeth

8. Dewis llety

Gall ymgeiswyr ddewis y math o eiddo y mae nhw ei angen, nifer ystafelloedd gwely a'r lleoliad. Mae yna gyfyngiad ar ddewis hyd at 5 ardal yn unig.

Mae'r tabl isod yn dangos y maint a math o eiddo y bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried amdanynt yn seiliedig ar gyfansoddiad y teulu. Canllaw yn unig ydi hwn. Nodwch efallai na fydd eich dewis delfrydol o faint eiddo yn cael ei gynnig i chi ac y cewch gynnig eiddo yr ydym ni o'r farn sydd yn rhesymol ac addas ar gyfer eich anghenion.

Teulu'r ymgeisydd	Fflat 1 stafell wely	Byngalo 1 stafell wely	Tŷ 1 stafell wely	Fflat / maisonet 2 stafell wely	Byngalo 2 stafell wely	Tŷ 2 stafell wely	Fflat / maisonet 3 stafell wely	Tŷ 3 stafell wely	Tŷ 4 stafell wely	Tŷ 5 stafell wely
Person sengl										
Cwpwl heb blant										
Rhiant sengl / cwpwl 1 plentyn										
Rhiant sengl / cwpwl 2 o blant dan 10 o'r un rhyw										
Rhiant sengl / cwpwl 2 o blant dros 10 o ryw wahanol										
Rhiant sengl / cwpwl 3 o blant o'r un rhyw										
Rhiant sengl / cwpwl 3 o blant o ryw wahanol										
Rhiant sengl / cwpwl 4 o blant o'r un rhyw										
Rhiant sengl / cwpwl 3 o blant o ryw wahanol										
Rhiant sengl / cwpwl gyda mwy na 4 o blant										

9. Stoc tai Gwynedd

Dyma restr o'r stoc tai cymdeithasol cyfredol yng Ngwynedd. Mae'n cynnwys llety gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru.

Ardal Bangor

		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Aber	Cyffredinol			1											
Bangor – Deiniol	Cyffredinol		24	11						45	16	2			
	Pobl hŷn									34	2				
Bangor – Dewi	Cyffredinol		4	122	1						13				
	Pobl hŷn						14								
Bangor – Garth	Cyffredinol			6						10	7				
Bangor – Glyder	Cyffredinol		6	90	6										
	Pobl hŷn										9				
Bangor – Hendre	Cyffredinol		31	108							15				
	Pobl hŷn						12			27	10				
Bangor – Hirael	Cyffredinol	1	47	42	2						6				
	Pobl hŷn						8			23	38				
Bangor – Marchog	Cyffredinol		32	375	30					54	86		9		
	Pobl hŷn						40	3							
Bangor – Menai	Cyffredinol	11	6	1								1			
	Pobl hŷn									64	24				
Bethesda	Cyffredinol		37	149	12						5				
	Pobl hŷn						14				17		8	12	
Caerhun / Glasinfryn	Cyffredinol			21											
	Pobl hŷn						18								
Gerlan	Cyffredinol		2	17	7										
Llanllechid / Rachub	Cyffredinol		6	51	1		4								
	Pobl hŷn					8	14			1	3				
Mynydd Llandygai	Cyffredinol			16											
	Pobl hŷn						5								
Penrhosgarnedd	Cyffredinol			11											
	Pobl hŷn						9								
Talybont	Cyffredinol			22	1		4								
	Pobl hŷn					8	14								
Treborth	Cyffredinol		4	8											
	Pobl hŷn						6								
Tregarth	Cyffredinol		19	59											
	Pobl hŷn						10								

Ardal Caernarfon

		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Bethel	Cyffredinol	1	5	21	4										
	Pobl hŷn						8								

Ardal Caernarfon (Parhad)															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Bontnewydd	Cyffredinol	1	13	28							3	8			
Brynrefail	Cyffredinol	1	1	3	1										
	Pobl hŷn						3								
Caeathro	Cyffredinol			3											
Caernarfon - Cadnant	Cyffredinol		47	128	1					33	16			6	
	Pobl hŷn					4	17								
Caernarfon - Menai	Cyffredinol		2							24	28	1	2		
	Pobl hŷn									30					
Caernarfon - Peblig	Cyffredinol		72	367	22					39	51	32			
	Pobl hŷn					12									
Caernarfon – Seiont	Cyffredinol		7	50							5		8	1	
	Pobl hŷn						18			57	1				
Carmel	Cyffredinol		2	13											
Cwm Y Glo	Cyffredinol	1		9											
	Pobl hŷn						3								
Deiniolen / Clwt Y Bor	Cyffredinol	1	11	128	10										
	Pobl hŷn						22								
Dinorwig	Cyffredinol			14											
Groeslon	Cyffredinol		4	29						4					
	Pobl hŷn						20								
Llanberis / Nant Peris	Cyffredinol		30	61	7					1	1				
	Pobl hŷn						18				38		4		
Llandwrog	Cyffredinol			2											
	Pobl hŷn									9					
Llanllyfni	Cyffredinol		2	65	4	5	2								
Llanrug	Cyffredinol		23	53	5										
	Pobl hŷn					4	24								
Nantlle	Cyffredinol		4	9											
	Pobl hŷn						6								
Nebo	Cyffredinol			9											
Penisarwaun	Cyffredinol		2	13											
	Pobl hŷn						14								
Penygroes	Cyffredinol	2	28	96	4					6	11		6		
	Pobl hŷn						27			6					
Rhiwlas	Cyffredinol	1	1	20											
Rhosgadfan	Cyffredinol		1	43	1										
	Pobl hŷn						12								
Rhostryfan	Cyffredinol		3	10											
	Pobl hŷn						14								
Rhyd Ddu	Cyffredinol			5											
Saron	Cyffredinol			9											
Talysarn	Cyffredinol	1		5	3						8				
Waunfawr	Cyffredinol		2	51	1										
	Pobl hŷn						15								

Ardal Caernarfon (Parhad)															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Y Felinheli	Cyffredinol		**8**	**20**	**2**										
	Pobl hŷn									**1**	**12**				
Y Fron	Cyffredinol		**3**	**10**											
	Pobl hŷn						**8**								

Ardal Dwyfor															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Aberdaron	Cyffredinol			**5**											
	Pobl hŷn					**1**									
Abererch	Cyffredinol			**25**						**10**	**14**				
	Pobl hŷn						**4**								
Abersoch	Cyffredinol		**4**	**37**	**3**					**3**	**4**				
Beddgelert / Nantmor	Cyffredinol		**2**	**7**		**2**				**4**					
Botwnnog	Cyffredinol		**1**	**18**											
Bryncir / Pant Glas	Cyffredinol			**7**											
Bryncroes	Cyffredinol			**12**											
	Pobl hŷn						**2**								
Capel Uchaf	Cyffredinol			**7**											
Clynnog	Cyffredinol			**28**											
	Pobl hŷn						**4**								
Criccieth	Cyffredinol		**27**	**34**	**5**					**11**		**7**			
	Pobl hŷn						**4**			**9**		**1**			
Chwilog / Afonwen	Cyffredinol			**11**	**1**										
	Pobl hŷn					**2**	**5**				**4**				
Dinas	Cyffredinol			**6**											
Edern	Cyffredinol		**1**	**12**						**2**					
Garndolbenmaen	Cyffredinol		**3**	**17**	**8**		**5**			**1**	**1**				
Gyrn Goch	Cyffredinol		**3**												
Llanaelhaearn	Cyffredinol	**1**	**8**	**17**	**2**										
Llanbedrog	Cyffredinol		**2**	**26**	**2**					**1**	**2**				
	Pobl hŷn					**2**									
Llangybi	Cyffredinol			**13**											
Llaniestyn	Cyffredinol			**5**											
Llannor	Cyffredinol			**19**						**2**	**2**				
Llanystumdwy	Cyffredinol		**2**	**12**						**2**	**3**				
Llithfaen	Cyffredinol		**2**	**10**	**1**										
Morfa Nefyn	Cyffredinol		**1**	**25**	**4**					**2**	**4**	**1**			
	Pobl hŷn						**4**								
Mynytho	Cyffredinol		**5**	**22**	**4**										
	Pobl hŷn						**8**								
Nefyn	Cyffredinol		**4**	**53**	**5**					**7**	**2**				
	Pobl hŷn					**4**	**10**								
Pencaenewydd	Cyffredinol			**9**	**2**										
Penmorfa	Cyffredinol			**6**											
Penrhos (Bron Y Berth)	Cyffredinol		**14**	**2**											
Penrhos (Pentref)	Cyffredinol			**3**											

Ardal Dwyfor (Parhad)															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Pentreuchaf	Cyffredinol			**4**											
Pistyll	Cyffredinol			**7**											
Pontllyfni	Cyffredinol			**9**											
Porthmadog	Cyffredinol		**21**	**54**	**7**					**18**	**22**	**1**			
	Pobl hŷn									**24**	**12**				
Prenteg	Cyffredinol			**3**											
Pwllheli	Cyffredinol		**71**	**151**	**17**			**1**		**60**	**75**	**5**	**1**	**9**	
	Pobl hŷn					**8**	**5**			**10**	**4**				
Rhiw	Cyffredinol		**2**	**1**			**1**								
Rhoslan	Cyffredinol			**5**											
Rhydyclafdy	Cyffredinol			**6**	**1**										
Sarn	Cyffredinol		**1**	**9**											
Trefor	Cyffredinol	**4**	**27**	**14**	**6**										
	Pobl hŷn						**2**			**8**					
Tremadog	Cyffredinol		**20**	**21**						**4**	**9**	**9**			
	Pobl hŷn									**19**					
Tudweiliog	Cyffredinol			**6**	**1**										
	Pobl hŷn						**6**								
Y Ffôr	Cyffredinol	**2**	**1**	**13**											
	Pobl hŷn						**8**								

Ardal Meirionnydd															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Aberangell	Cyffredinol		**7**	**3**											
Aberdyfi	Cyffredinol	**2**	**2**	**14**							**10**				
	Pobl hŷn					**3**	**11**								
Abergynolwyn	Cyffredinol		**3**	**4**											
	Pobl hŷn						**6**								
Aberllefenni	Cyffredinol		**5**	**5**											
Abermaw	Cyffredinol		**6**	**44**	**2**					**22**	**42**	**20**	**6**	**12**	**8**
	Pobl hŷn									**22**	**12**				
Arthog	Cyffredinol			**5**											
Bala	Cyffredinol	**1**	**14**	**107**	**9**					**28**	**27**				
	Pobl hŷn						**18**			**32**					
Blaenau Ffestiniog	Cyffredinol	**18**	**130**	**37**	**1**					**10**	**47**				
	Pobl hŷn						**6**	**10**		**32**					
Bontddu	Cyffredinol			**2**											
Brithdir	Cyffredinol			**3**					**1**						
	Pobl hŷn						**3**								
Bryncrug	Cyffredinol		**4**	**2**	**1**										
	Pobl hŷn						**8**								
Corris	Cyffredinol	**2**	**5**	**13**	**1**	**1**	**3**			**1**	**1**				
Dinas Mawddwy	Cyffredinol			**3**											
	Pobl hŷn					**3**	**3**								
Dolgellau	Cyffredinol	**5**	**24**	**70**	**4**		**3**		**1**	**17**	**20**				
	Pobl hŷn						**14**			**12**	**35**				

Ardal Meirionnydd (Parhad)															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Dyffryn Ardudwy	Cyffredinol		3	21	1						2	1			
	Pobl hŷn					8	15	1		12					
Fairbourne	Cyffredinol			3						1					
Friog	Cyffredinol			4											
	Pobl hŷn						9								
Ganllwyd	Cyffredinol			6											
Gellilydan	Cyffredinol		4	27											
	Pobl hŷn					4	8								
Glanrafon	Cyffredinol			4											
	Pobl hŷn					2									
Harlech	Cyffredinol		11	19	3										
	Pobl hŷn					1	12								
Llanbedr	Cyffredinol			2											
	Pobl hŷn					8	11								
Llandecwyn	Cyffredinol		4	2											
Llandderfel	Cyffredinol		4	8	3		1	4							
	Pobl hŷn						4								
Llanegryn	Cyffredinol			6											
	Pobl hŷn					3	8								
Llanelltyd	Cyffredinol			2											
	Pobl hŷn					1									
Llanfachreth	Cyffredinol			3											
	Pobl hŷn						3								
Llanfair	Cyffredinol			7											
	Pobl hŷn						7								
Llanfor	Cyffredinol			5											
Llanfrothen	Cyffredinol			8											
	Pobl hŷn					1	5								
Llangywer	Cyffredinol			1											
Llanuwchllyn	Cyffredinol		1	4						2	10	1			
	Pobl hŷn						4								
Llan Ffestiniog	Cyffredinol		6	18	1		1			7	1				
	Pobl hŷn						2								
Llwyngwril	Cyffredinol			5							4				
	Pobl hŷn					2	4								
Maentwrog	Cyffredinol	1	1								3				
Minffordd	Cyffredinol		3	5											
Parc	Cyffredinol			2											
Pennal	Cyffredinol		3								6				
	Pobl hŷn						3								
Penrhyndeudraeth	Cyffredinol		17	32	3										
	Pobl hŷn					4	26			21					
Rhoslefain	Cyffredinol			4											
Rhyduchaf	Cyffredinol			1											
Rhydymain	Cyffredinol			1											
	Pobl hŷn						4								
Talsarnau / Soar	Cyffredinol			2											
	Pobl hŷn						2								

Ardal Meirionnydd (Parhad)															
		Tŷ				Byngalo				Fflat			Maisonet		
	Llety	1	2	3	4+	1	2	3	4	1	2	3	2	3	4
Tanygrisiau	Cyffredinol	**1**	**11**	**17**							**12**				
	Pobl hŷn					**4**	**2**								
Trawsfynydd	Cyffredinol		**13**	**31**											
	Pobl hŷn					**3**	**11**								
Tywyn	Cyffredinol		**18**	**162**	**6**		**6**			**3**	**10**		**1**		
	Pobl hŷn					**6**	**35**			**20**					
Ynys	Cyffredinol		**2**	**2**											
	Pobl hŷn						**3**								

Mae llety ar gyfer pobl hŷn fel arfer yn golygu i bobl sydd yn 55 oed neu drosodd, ond gall hyn amrywio ar rai safleoedd. Bydd rhai eiddo ar gyfer pobl hŷn hefyd yn elwa o wasanaeth Warden yn preswylio neu ymweld â'r safle a bydd rhai yn addas ar gyfer pobl gydag anabledd. Cysylltwch ag Opsiynau Tai am ragor o wybodaeth.

9. Cwblhau'r ffurflen gais

Os nad ydi eich ffurflen gais wedi ei gwblhau'n gywir efallai y bydd rhaid i ni ei gyrru'n ôl i chi fydd yn golygu oedi wrth brosesu'r cais. Dyma rhai awgrymiadau defnyddiol ar gwblhau'r ffurflen gais fydd yn ein cynorthwyo ni i brosesu'r cais yn brydlon.

- Atebwch bob cwestiwn yn y ffurflen gais. Os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch amgylchiadau chi yna ysgrifennwch "dim yn berthnasol" neu debyg fel eich ateb
- Darllenwch y canllawiau a ddarparwyd yn y golofn "Help" yn y ffurflen gais
- Os nad ydych yn siŵr pa ddogfennau sydd angen i chi atodi fel rhan o'ch cais yna cysylltwch â ni:
  dros y ffôn ar 01286 685100
  trwy e-bost opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru
- Bydd angen i unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu darparu fod yn gopïau. Peidiwch â gyrru dogfennau gwreiddiol gan na allwn warantu y byddent yn cael eu dychwelyd yn ddiogel i chi
- Sicrhewch fod pob ymgeisydd yn llofnodi a dyddio'r ffurflen gais ar y dudalen olaf

<u>Barod yn Fuan! – Eiddo Newydd</u>

Mae'r eiddo canlynol yn y broses o gael eu datblygu – cysylltwch ag Opsiynau Tai am ragor o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb.

Barod Ionawr 2017 ….

Safle *Plasllwyd,* Hirael, Bangor. Bydd yna 3 fflat 1 stafell wely a 6 fflat 2 stafell wely yn y datblygiad yma gan yma gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Argraff arlunydd o fflatiau safle Plasllwyd

Barod Mawrth 2017 ….

Safle *Wenallt*, Dolgellau. Datblygiad gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd o 8 tŷ 2 stafell wely a 4 tŷ 3 stafell wely.

Argraff arlunydd o'r datblygiad ar safle Wenallt

Ydych chi yn denant i Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin neu Tai Gogledd Cymru?

Os ydych, mae'n bosibl y bydd gennych yr hawl i gyfnewid eich tenantiaeth gyda thenant arall yn y sector cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch landlord presennol (mae'r manylion isod) neu gallwch ymweld â'r safleoedd gwe canlynol:

www.homeswapper.co.uk

www.houseswapwales.co.uk

Manylion Cyswllt

Tîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd
Y Tîm sydd yn delio gyda'ch cais am lety.
Cysylltwch â ni gyda ***phob*** ymholiad am eich cais.

01286 685100

opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru

Darparwyr Tai

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

0300 123 8084

www.ccgwynedd.org.uk

www.ccgwynedd.org/cy-GB/Eiddo-ar-osod
(dolen gyswllt i restr o eiddo ar gael ar hyn o bryd)

Grŵp Cynefin

0300 111 2122

www.grwpcynefin.org

twitter.com/Grwp_Cynefin

facebook.com/GrwpCynefin
(mae'r tudalennau Twitter a Facebook yma yn rhestru rhai eiddo sydd ar gael)

Tai Gogledd Cymru

01492 572727 | 01248 370227

www.nwha.org.uk